Y Gwir Anrhydeddus Steve Barclay AS
Prif Ysgrifennydd y Trysorlys

2 Chwefror 2021

Annwyl Brif Ysgrifennydd,

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gweithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol**

Rwy'n falch o'ch hysbysu bod y Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno adroddiad ar ei ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol.

Er ein bod yn cydnabod y cyfyngiadau ar eich amser oherwydd y pandemig a digwyddiadau cyllidol dros y misoedd diwethaf, mae'n siomedig nad ydych wedi ymgysylltu â'r ymchwiliad hwn. Mae pandemig COVID-19 wedi amlygu ymhellach broblemau difrifol yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cael cyllid gan Lywodraeth y DU, ac mae ein hadroddiad yn nodi nifer o feysydd lle mae angen gwybodaeth bellach gan Lywodraeth y DU. Rwy'n falch y bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Mawrth; trafodir y pwyntiau hyn ag ef bryd hynny.

Ysgrifennodd y Pwyllgor atoch chi ar 8 Ionawr 2021, yn gofyn am wybodaeth bellach a fyddai'n ein cynorthwyo'n fawr gyda'r ymchwiliad hwn a'n gwaith ehangach ar ddatganoli cyllidol. Trefnwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mawrth ar adroddiad y Pwyllgor a byddem yn croesawu cael eich ymateb i'n cais cynharach, ynghyd â'ch barn am y materion a nodir yn adroddiad y Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn trafod y materion hyn â'r Ysgrifennydd Gwladol, ac rwyf wedi ysgrifennu ato ar wahân.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb cyn y dyddiad hwn fel y gellir ei ystyried yn ystod y ddadl.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.